



**Cynllun Rheoli Adnoddau  
Dŵr Terfynol**  
Mawrth 2015



## CRYNODEB O'N CYNLLUN RHEOLI ADNODDAU DŴR

Mae United Utilities yn ymroi i ddarparu dŵr yfed dibynadwy, o safon uchel, i'w gwsmeriaid. Mae'n bwysig cael digon o ddŵr i bobl ei ddefnyddio gartref. Hefyd, mae'n bwysig cael digon o ddŵr ar gyfer busnesau, i alluogi economi weithgar. Mae ar gymunedau lleol a bywyd gwyllt angen dŵr wedi'i adael mewn llynnoedd ac afonydd i sicrhau eu lles. Mae angen cynllun manwl a chadarn arnom ni i sicrhau bod digon o ddŵr gennym at yr holl anghenion hyn, hyd yn oed o ystyried heriau yn y dyfodol fel twf a newid yn yr hinsawdd.

O dan Ddeddf Dŵr 2003, mae gennym ddyletswydd statudol i lunio Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. O dan y Ddeddf hon, mae'n ofynnol i ni ymgynghori ar y cynllun fel y gall rhanddeiliaid ddeall y broses gynllunio a chyfrannu at ddatblygiad y cynllun.

Y ddogfen hon yw Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol 2015, sef diweddariad i gynllun drafft diwygiedig 2013 yn dilyn Archwiliad Cyhoeddus ohono. Cynhaliwyd gwrandawiadau cyhoeddus yr Archwiliad Cyhoeddus, dan gadeiryddiaeth Arolygydd Cynllunio, ym mis Medi 2014. Yn dilyn y gwrandawiadau, cafwyd cyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol y dylid gwneud newidiadau i'r cynllun ac mae'r ddogfen hon yn cynnwys y newidiadau hynny. Ar 25 Chwefror 2015, cadarnhaodd Defra fod y newidiadau a wnaed yn foddhaol ac y gallai cynllun drafft diwygiedig 2015 gael ei gyhoeddi ar ffurf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol 2015.

## DIBEN CYNLLUN ADNODDAU DŴR 2015

Mae'r cynllun hwn yn disgrifio'n fanwl ein hasesiad o'r cyflenwadau dŵr sydd ar gael a galw ein cwsmeriaid am ddŵr dros y cyfnod rhwng 2015 a 2040. Hefyd, mae'r cynllun yn amlinellu ein strategaeth arfaethedig ar gyfer rheoli'r Adnoddau dŵr a'r galw am ddŵr er mwyn sicrhau bod gennym gyflenwadau dŵr digonol i wasanaethu ein cwsmeriaid.

Yn benodol, mae rhai ystyriaethau heriol yn gysylltiedig â'r cyflenwad dŵr yng Ngorllewin Cumbria. Yma, mae angen i ni wneud rhai penderfyniadau anodd ynghylch sut rydym yn cydbwysu rhai o'n hymrwymiaidau cyfreithiol â'r galw am gyflenwadau dŵr sicr yn yr ardal honno, ac rydym wedi gwrandao'n astud ar y safbwyntiau a fynegwyd yn ein hymgyngoriad sydd, ar y cyfan, yn cefnogi ein cynllun. Yn ogystal, mae'r cynllun hwn yn cynnwys manylion pellach am ein gweithgareddau interim i amddiffyn yr amgylchedd yng Ngorllewin Cumbria yn y cyfamser, hyd nes gallwn gyflwyno'r cynllun sy'n well gennym er mwyn cynnig ateb tymor hir.

### Ystyriaethau Allweddol

Er mwyn ateb y galw am adnoddau dŵr yn y gogledd-orllewin yn llwyddiannus, rydym yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â nifer o ystyriaethau allweddol, gan gynnwys:

- Cydbwysu anghenion pob cwsmer
- Cynllunio ar gyfer ansicrwydd yn y dyfodol a newid yn yr hinsawdd
- Darparu cynlluniau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth er mwyn i bobl allu gwneud penderfyniadau gwybodus
- Cyflawni ein dyletswydd statudol i amddiffyn yr amgylchedd dŵr
- Diogelu tirwedd a phrydferthwch yr ardaloedd lle'r ydym yn byw, yn gweithio ac yn chwarae

## CYDBWYSO ANGHENION POB CWSMER

### Sicrhau cyflenwad dŵr dibynadwy i'n cwsmeriaid

Mae ein cwsmeriaid wedi rhoi gwybod i ni'n gyson bod cael cyflenwad dŵr dibynadwy yn flaenoriaeth bennaf ac maent wedi mynegi mai yn gymharol anaml y dylid gosod cyfyngiadau ar ddefnyddio dŵr.

Yn wahanol i rannau eraill o'r wlad, ein nod yw gosod cyfyngiadau ar ddefnyddio dŵr a chyflwyno trwyddedau sychder dim ond unwaith ym mhob 20 mlynedd ar gyfartaledd, gwahardd defnydd nad yw'n hanfodol dim ond unwaith ym mhob 35 mlynedd, ac ystyriwn fod cynllunio ar gyfer safbelloau neu doriadau mewn rota yn annerbyniol hyd yn oed yn ystod y sychderau mwyaf difrifol.

### Sicrhau dull cynaliadwy o echdynnu dŵr i amddiffyn yr amgylchedd

Yn y rhan fwyaf o achosion, a chan amlaf, mae lefel ddigonol o ddŵr ar gael yng ngogledd-orllewin Lloegr i'w echdynnu. Fodd bynnag, rydym yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i amddiffyn rhywogaethau a chynefinoedd sy'n sensitif yn amgylcheddol – yn enwedig yng Ngorllewin Cumbria. Dyma ardal o bwysigrwydd amgylcheddol mawr; mae'r holl afonydd a llynnoedd naturiol yn cynnwys rhywogaethau prin a chynefinoedd sensitif, sydd wedi'u diogelu gan y gyfraith, gan gynnwys unig boblogaeth hyfyw Lloegr o'r fisglen dŵr croyw, sydd wedi'i diogelu'n rhyngwladol. O ganlyniad i'r camau sy'n angenrheidiol i helpu diogelu'r rhywogaeth hon, bydd gostyngiad sylweddol o ran faint o ddŵr sydd ar gael i'w gyflenwi yn yr ardal hon.

### Sicrhau bod prisiau dŵr yn fforddiadwy

Gall camau i wella'r amgylchedd neu leihau pa mor aml y mae angen gosod cyfyngiadau ar ddefnyddio dŵr fod yn gostus iawn ac mae'n bwysig i gwsmeriaid nad yw'r gweithgareddau hyn yn codi biliau dŵr yn ddiangen. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn rhanbarth fel gogledd-orllewin Lloegr, lle mae incwm pobl yn aml ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae fforddiadwyedd yn broblem wirioneddol.

## CYNLLUNIO AR GYFER ANSICRBYDD YN Y DYFODOL A NEWID YN YR HINSAWDD

### Galw cwsmeriaid am ddŵr

Rhan allweddol o'n cynllun yw gwybod faint o ddŵr y mae ei angen ar gwsmeriaid nawr a'u hangen tebygol yn y dyfodol.

Mae cyfanswm y galw am ddŵr yn y rhanbarth wedi gostwng yn 18 o'r 20 mlynedd diwethaf. Dros y cyfnod hwn, rydym wedi sicrhau bod dros hanner yn llai o ddŵr yn gollwng i'r ddaear o'n pibellau, gan ostwng o 945 miliwn litr y dydd ym 1992 i 457 miliwn litr y dydd nawr. Rydym wedi cyflawni hyn trwy fonitro ein rhwydwaith am ollyngiadau, gosod pibellau newydd yn lle rhai hen, a dod o hyd i ollyngiadau a'u trwsio. Ar hyn o bryd, rydym yn dod o hyd i ollyngiadau sy'n digwydd a'u trwsio ar raddfa o fwy na 7,500 o ollyngiadau'r flwyddyn yn ein pibellau ein hunain a phibellau tanddaearol cwsmeriaid. Mae gollyngiadau yng ngogledd-orllewin Lloegr islaw'r 'lefel economaidd gynaliadwy' ar hyn o bryd, hynny yw, mae'r gost o ddod o hyd i'r gollyngiad a'i drwsio, gan gynnwys y costau i gymdeithas (e.e. tarfu ychwanegol ar draffig) ac i'r amgylchedd (allyriadau carbon), yn ddrutach na'r gost o dynnu'r dŵr o'n ffynonellau dŵr. Serch hynny, rydym yn ymroi i rwystro'r gollyngiadau hyn ac atal lefelau gollyngiadau rhag codi.

Er 2010, rydym wedi mynd ati o ddifrif i gynyddu ein hymdrech i helpu cwsmeriaid ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon mewn cartrefi a busnesau. Rydym yn cynnig rhaglen addysg am ddim ar effeithlonrwydd dŵr i ysgolion cynradd yn y gogledd-orllewin, gan gynnwys rhoddion difyr am ddim. Hefyd, rydym yn dosbarthu cynhyrchion eraill yn ymwneud ag effeithlonrwydd dŵr am ddim i helpu cwsmeriaid arbed arian yn y cartref, fel teclynnau pen cawodydd a gosodiadau tap sy'n defnyddio dŵr yn effeithlon. Rydym yn ymweld â busnesau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant ddefnyddio llai o ddŵr. Hefyd, rydym wedi buddsoddi mewn ymchwil i ddulliau newydd i gwsmeriaid allu defnyddio dŵr yn fwy effeithlon.



Rydym wedi noddi'r cymeriad teledu plant, Gabi H2O, sy'n ymroi i addysgu plant ynghylch arbed dŵr

Mae'r cynllun hwn wedi ennill gwobrau i ni



Gwyddom fod cwsmeriaid sydd â mesurydd dŵr yn defnyddio llai o ddŵr na phobl heb fesurydd. Rydym yn cynnig mesuryddion dŵr am ddim i gwsmeriaid i'w helpu i reoli eu defnydd o ddŵr a gostwng biliau. Mae mesurydd dŵr yn cael ei roi ym mhob tŷ a busnes newydd hefyd.



**Mae cyfanswm y galw am ddŵr yn y rhanbarth wedi gostwng yn 18 o'r 20 mlynedd diwethaf a disgwyliwn iddo barhau i ostwng dros y 25 mlynedd nesaf.**

Wrth baratoi'r cynllun hwn, disgwyliwn y bydd nifer y bobl yng ngogledd-orllewin Lloegr yn cynyddu o 6.9 miliwn yn 2012 i 7.9 miliwn erbyn 2040 a chredwn y bydd nifer y tai y bydd angen i ni gyflenwi dŵr iddynt yn cynyddu o 3.0 miliwn i 3.7 miliwn. Mae galw busnesau a diwydiant yn y gogledd-orllewin am ddŵr wedi gostwng dros y degawdau diwethaf. Credwn y bydd yn parhau i ostwng 17% ymhellach rhwng 2012 a 2040 er gwaethaf y twf economaidd disgwylidig yn y rhanbarth. Tuedd barhaus i ddiwydiant ddefnyddio dŵr yn llai dwys ac i gartrefi ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon sy'n gyfrifol am hyn.

Trwy barhau i hybu effeithlonrwydd dŵr, darganfod gollyngiadau o bibellau a'u trwsio, a darparu mesuryddion dŵr am ddim i gwsmeriaid ar y lefel bresennol am y 25 mlynedd nesaf, tybiwn y bydd y galw yn parhau i ostwng er gwaethaf y twf disgwylidig mewn poblogaeth a thai.

## Cyflenwadau dŵr sydd ar gael

Yn ogystal â rhagweld galw cwsmeriaid am ddŵr, mae angen i ni hefyd ddeall faint o ddŵr sydd ar gael gennym yn y gogledd-orllewin i'w gyflenwi i'n cwsmeriaid, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn gweithio'n barhaus i wella cadernid ein cyflenwad dŵr a gwneud yn siŵr bod digon o ddŵr ar gael i'n cwsmeriaid ei ddefnyddio. Yn 2012, cwblhawyd piblinell ddŵr ddwyffordd 55km newydd o'r gorllewin i'r dwyrain rhwng Glannau Mersi a Manceinion, gan ddyblu faint o ddŵr y gellir ei drosglwyddo rhwng yr ardaloedd hyn. Mae hyn yn ein helpu i gynnal cyflenwadau digonol i ardaloedd mawr o'r Parth Adnoddau Integredig yn ystod tywydd sych; dyma'n parth adnoddau dŵr mwyaf ac mae'n cynnwys y rhan fwyaf o ogledd-orllewin Lloegr. Hefyd, mae'r biblinell hon yn ein galluogi ni i gynnal gwaith cynnal a chadw pwysig ar ein rhwydwaith bresennol o bibellau dŵr.


Ers ein cynllun diwethaf, rydym hefyd wedi gwella'r modelau adnoddau dŵr a ddefnyddiwn i gyfrifo faint o ddŵr sydd ar gael ym mhob parth adnoddau, nawr ac yn y dyfodol. Rydym wedi datblygu modelau manylach o'n rhwydwaith dŵr, gan gynnwys ein holl brif ffynonellau dŵr, gweithfeydd trin dŵr ac ardaloedd lle y mae galw am ddŵr ar draws pob parth adnoddau, gan ddefnyddio meddalwedd o'r enw Aquator™. Dyma feddalwedd ddatblygedig ac mae'n un o'r rhai a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin yn y diwydiant dŵr. Mae wedi'n galluogi ni i wella'n dull o gynrychioli'r cyflenwadau dŵr sydd ar gael gennym ac i ddeall effeithiau unrhyw newidiadau posibl yn y dyfodol ar y dŵr sydd ar gael gennym.

Un o'r newidiadau y mae angen i ni wybod amdano yw effaith newid yn yr hinsawdd ar y cyflenwad dŵr y dyfodol. Ar gyfer y cynllun hwn, rydym wedi gwella'n hasesiad o newid yn yr hinsawdd yn sylweddol ac wedi mabwysiadu dull seiliedig ar risg gan ddefnyddio'r wybodaeth gyfredol orau sydd ar gael am newid yn yr hinsawdd (Rhagolygon Hinsawdd y DU 2009). Ystyr hyn yw ein bod wedi cynnal asesiad manwl iawn lle yr ystyrir y gallai newid yn yr hinsawdd gael effaith fawr ar y dŵr sydd ar gael.

Yn ogystal, mae angen i ni gynnwys effaith gwelliannau amgylcheddol arfaethedig ar y dŵr sydd ar gael i'w gyflenwi. Gwyddom y bydd llai o ddŵr y gallwn ei gymryd o rai ffynonellau yn y dyfodol er mwyn gadael mwy ohono i wella'r amgylchedd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn parhau i benderfynu ar yr ardaloedd sensitif yn ecolegol sydd angen mwy o ddŵr, ond mae ein hasesiad yn awgrymu mai effaith gymharol gymedrol a gaiff y newidiadau hyn ar y dŵr sydd ar gael gennym i'w gyflenwi ar draws y rhan fwyaf o ogledd-orllewin Lloegr. Gweler y map drosodd i gael arwydd o leoliadau posibl y gwelliannau amgylcheddol hyn. Fodd bynnag, nid dyma'r sefyllfa ar gyfer Parth Adnoddau Gorllewin Cumbria. Mae Gorllewin Cumbria yn gartref i unig boblogaeth hyfyw Lloegr o'r fisglen dŵr croyw, sydd wedi'i diogelu'n rhyngwladol. Bydd y camau y mae angen eu cymryd i helpu i ddiogelu'r rhywogaeth hon yn arwain at ostyngiad sylweddol o ran faint o ddŵr sydd ar gael i'w gyflenwi yn yr ardal hon.



Rydym wedi mwy na haneru faint o ddŵr sy'n gollwng i'r ddaear o'n pibellau



**Rydym yn gadael mwy o ddŵr yn ein llynnoedd a'n hafonydd ar draws y gogledd-orllewin yn gyfan**

**Ystyried elfennau ansicr**

Mae'n bwysig iawn bod mwy o ddŵr ar gael gennym na'r angen a ragwelir. Er enghraifft, gallai newid yn yr hinsawdd fod yn waeth na'r rhagolwg neu gallai llygredd

olygu nad oes modd defnyddio rhai ffynonellau dŵr am gyfnod. Rydym wedi asesu'r elfennau ansicr yn ein rhagolygon ac wedi caniatáu digon o hyblygrwydd rhwng y rhagolygon am gyflenwad a galw.

Hefyd, rydym wedi ystyried senarios sydd â chanlyniadau mwy eithafol ac wedi amlygu digon o opsiynau yn y cynllun i ateb unrhyw ddiffyg posibl.

## DARPARU CYNLLUNIAU WEDI'U SEILIO AR DYSTIOLAETH ER MWYN GWNEUD PENDERFYNIADAU GWYBODUS

### Sensitifrwydd amgylcheddol Gorllewin Cumbria

Mae Gorllewin Cumbria yn enwog am ei thirwedd drawiadol a'i hamgylchedd ag ardaloedd braidd nad ydynt yn ddilychwin. Mae'r holl brif ffynonellau dŵr ar wyneb y ddaear yng Ngorllewin Cumbria yn cynnwys rhywogaethau prin wedi'u hamddiffyn gan y gyfraith. Mae eogiaid, torgochiaid a llawer o blanhigion dyfrol prin yn bresennol. Hefyd, mae'r ardal yn gartref i unig boblogaeth hyfyw Lloegr o'r fisglen dŵr croyw, sydd wedi'i diogelu'n rhyngwladol. Heb newidiadau i'n hechdynnu o Lyn Ennerdale, gallai'r rhywogaeth hon ddiflannu'n llwyr o Loegr.

Mae cyfraith y DU ac Ewrop yn amddiffyn yr amgylchedd yng Ngorllewin Cumbria. Mae Llyn Ennerdale wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac, i lawr yr afon o'r llyn, mae Afon Ehen yn SoDdGA ac yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae Llyn Crummock ac Afon Cocker ill dau'n rhan o SoDdGA ac ACA. Mae Overwater hefyd yn SoDdGA. Mae'r tri safle oll ym Mharc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd ac, felly, mae'r golygfeydd hardd a'r tirweddau wedi'u hamddiffyn gan y gyfraith.

Ar hyn o bryd, mae Ardal y Llynnoedd yn denu 15.2 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, mae'n cynnal 14,865 o swyddi twristiaeth ac mae £935 miliwn yn cael ei wario yno bob blwyddyn. Daw llawer o'r twristiaid hyn yno i weld y tirweddau mynyddig a'r llynnoedd trawiadol ac am y cyfleoedd hamdden y mae'r rhain yn eu cynnig.

Mae Gorllewin Cumbria yn rhan bwysig o weledigaeth Arfordir Ynni Prydain ar gyfer sicrwydd ynni'r genedl, gan gynnwys cynhyrchu ynni carbon isel a mathau glân eraill o ynni. Rhagwelir buddsoddiad sylweddol a fydd yn cyfrannu at yr economi leol am y 15 mlynedd nesaf, gan gynnwys y posibilrwydd o greu 3,000 o swyddi. Mae'r ardal eisoes yn gartref i un o grynodiadau mwyaf y DU o gyflogaeth ym maes gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg ddatblygedig<sup>1</sup>.

Mae darparu cyflenwadau dŵr sicr a diogelu'r amgylchedd dyfrol yn y lleoliad hwn yn galw am gydbwyso gofalus. Mae mynyddoedd Cumbria yn golygu bod y rhwydwaith dŵr yng Ngorllewin Cumbria yn rhwydwaith ar wahân i weddill ein hardaloedd cyflenwi dŵr, ac mae cyflenwadau dŵr cyhoeddus yn ddibynnol ar y ffynonellau lleol. Ystyr hyn oll yw bod y dewisiadau o ran cyflenwi dŵr yng Ngorllewin Cumbria yn brin.

Yn ystod y cyfnod cyn yr ymgynghoriad ac yn ystod yr ymgynghoriad, mynegodd llawer o randdeiliaid yn Cumbria y farn bod angen i ni fabwysiadu safbwynt strategol, hirdymor, ynghylch sefyllfa'r adnoddau dŵr yng Ngorllewin Cumbria yn gyffredinol. Roedd y rhain yn cynnwys Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd, Cyfeillion Ardal y Llynnoedd, Cymdeithas Perchenogion Derwent ac Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cumbria.

---

<sup>1</sup> [www.britainsenergycoast.co.uk/blueprint](http://www.britainsenergycoast.co.uk/blueprint)



Mae ein rhanddeiliaid, y dystiolaeth wyddonol a'r gyfraith oll yn dweud wrthym fod angen i ni newid y trefniadau cyflenwi dŵr yng Ngorllewin Cumbria yn sylweddol er mwyn eu gwneud yn gadarn, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

### Ein cynllun

Rydym wedi nodi tair ffordd bosibl o ateb yr heriau yng Ngorllewin Cumbria. Cyflwynom y dewisiadau hyn yn ein cynllun drafft a gwrandawom yn ofalus ar y farn a fynegwyd yn yr ymgynghoriad. Hefyd, cynhaliom ymchwil bellach ymhlith cwsmeriaid i lywio ein cynllun terfynol. O ganlyniad, y cynllun sydd orau gennym yw defnyddio rhywfaint o'r dŵr dros ben sydd ar gael yn ein Parth Adnoddau Integredig. Byddwn yn adeiladu gwaith trin dŵr newydd a phiblinell rhwng Gorrlewin Cumbria a Chronfa Ddŵr Thirlmere, un o'n ffynonellau dŵr mwyaf. Bydd hyn yn llunio parth adnoddau dŵr rhyng-gysylltiedig mwyaf y DU. Bydd y biblinell yn ddigon mawr fel y gallai ddarparu ar gyfer anghenion ein holl gwsmeriaid, gan gynnwys unrhyw gynnydd mewn galw yn y dyfodol, sydd uwchlaw'r hyn a ragwelir gennym.

Cafodd cynllun arall, cost is, i ddarparu'r dŵr hwn ei ystyried yn yr ymgynghoriad, sef adeiladu nifer o ffynonellau dŵr newydd yng Ngorllewin Cumbria, gan gynnwys dyfrdyllau a phiblinell o Wastwater, sef llyn ym mherchenogaeth parti arall. O'r opsiynau ar gyfer cynnal cyflenwad dŵr i'n cwsmeriaid yng Ngorllewin Cumbria, dyma'r cyfuniad isaf ei gost. Fodd bynnag, mae pryder sylweddol am hyfywedd y cynllun hwn, effeithiau ar yr amgylchedd a diffyg cefnogaeth gan rhanddeiliaid a chwsmeriaid. Felly, ynghyd â'r angen brys i ddatrys yr ystyriaeth amgylcheddol sylfaenol, ystyriwn nad yw mabwysiadu'r cynllun hwn fel ein cynllun o ddewis o fudd i'n cwsmeriaid.

Cynllun arall a ystyriwyd yn yr ymgynghoriad oedd prynu dŵr oddi wrth Northumbrian Water. Byddai'r dŵr hwn wedi dod o Gronfa Ddŵr Kielder yng ngogledd y Pennines a byddai angen piblinell ddŵr newydd o Gronfa Ddŵr Kielder i waith trin dŵr newydd ger Caerliwelydd, ac yna piblinell ddŵr yfed newydd i Orllewin Cumbria. Roedd gan hwn fanteision tebyg i'r cynllun sy'n well gennym, sef Thirlmere, ond roedd ychydig yn ddrutach i'w adeiladu ac yn ddrutach o lawer i'w redeg gan y byddai gofyn pwmpio dŵr dros bellter (70 km). Oherwydd cost uchel iawn y dewis hwn a'r ffaith y byddai angen mwy o amser i'w ddylunio a'i adeiladu na'r dewisiadau eraill, nid yw ystyried y cynllun hwn ymhellach o fudd i'n cwsmeriaid na'r amgylchedd.

Er bod y cynllun sy'n well gennym, Thirlmere, yn ddrutach na'r cynllun isaf ei gost arall yn y cynllun drafft, rydym o'r farn mai dyma'r unig gynllun a all roi sicrwydd y bydd digon o ddŵr ar gael yng Ngorllewin Cumbria ac y byddwn yn cyflawni ein hymrwymiaadau cyfreithiol i ddiogelu'r amgylchedd. Bydd yn golygu nad oes angen i ni gymryd dŵr o'r safleoedd mwyaf sensitif yn amgylcheddol yng Ngorllewin Cumbria mwyach, felly gall y cynefinoedd adfer

cyflwr mwy naturiol. Mae'n cynnig cyflenwad dŵr mwy dibynadwy i'n cwsmeriaid adeg tywydd sych. Gallwn bennu maint y biblinell fel ei bod yn ateb galwadau uwch na'r hyn a ddisgwylir ar hyn o bryd am ddŵr yn sgil twf economaidd posibl yn yr ardal yn y dyfodol. Bydd bod yn rhan o barth adnoddau dŵr mwyaf y DU yn cynyddu dibynadwyedd cyflenwad dŵr cwsmeriaid yn wyneb ffactorau eraill, fel newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

Mae'r cynllun sy'n well gennym yn cynnwys cymryd mwy o ddŵr o Gronfa Ddŵr Thirlmere, ond byddai hyn o fewn y swm a ganiateir ar hyn o bryd ac ni fydd yn effeithio ar y safleoedd o amgylch Thirlmere sy'n sensitif yn amgylcheddol. Oherwydd ei fod yn rhan o'r Parth Adnoddau Integredig, gellir cydbwysu'r defnydd o Thirlmere â'r defnydd o ffynonellau eraill ar draws y rhanbarth i wneud yn siŵr ein bod yn defnyddio dŵr lle

### Rheoli'r Galw

Mae gan reoli'r galw rôl bwysig i'w chwarae wrth sicrhau cyflenwad dŵr dibynadwy yn wyneb heriau'r dyfodol.

Rydym yn ymroi i leihau'r galw trwy gynyddu lefelau'r aelwydydd sydd â mesuryddion, parhau i gynnig dyfeisiadau, cyngor ac addysg ynghylch defnyddio dŵr yn effeithlon a chynnal lefel o ollyngiadau sy'n gynaliadwy'n economaidd.

Rydym wedi asesu manteision ein strategaeth rheoli'r galw sylfaenol. Heb ostyngiadau yn y galw o'n rhaglen opsiwn mesurydd am ddim a rhaglenni effeithlonrwydd dŵr, byddai diffyg rhwng y cyflenwad a'r galw yn y Parth Adnoddau Integredig o 107 miliwn litr y dydd erbyn 2040. Mae hyn yn golygu ein bod yn osgoi gorfod datblygu nifer fawr o ffynonellau dŵr newydd oherwydd ein rhaglen rheoli'r galw.

Mae gwerth cyfanswm net osgoi datblygu ffynonellau dŵr newydd yn fwy na £300 miliwn ar hyn o bryd.

bo hwnnw ar gael, lle y bo'n bwrw glaw. Mae gostyngiadau yn y galw yn y parth hwn yn golygu bod dŵr ar gael i'w gyflenwi i Orllewin Cumbria heb godi'r lefelau echdynnu uwchlaw'r terfynau presennol.

Rydym wedi rhagweld y bydd digon o ddŵr o hyd i'n cwsmeriaid yn y Parth Adnoddau Integredig, hyd yn oed pan fyddwn yn adeiladu piblinell o Gronfa Ddŵr Thirlmere i ddarparu dŵr i'n cwsmeriaid yng Ngorllewin Cumbria.

O ystyried yr heriau a wynebwn ym Mharth Adnoddau Gorllewin Cumbria, bydd gweithredu'r cynllun sy'n well gennym, sef Thirlmere, yn cymryd sawl blwyddyn. O ganlyniad, rydym eisoes wedi cwblhau camau i ostwng echdyniadau o Lyn Ennerdale yn sylweddol, ac mae nifer o weithgareddau yn mynd rhagddynt i ostwng yr echdyniadau hyn ymhellach fyth. Bydd hyn yn helpu i leihau pwysau amgylcheddol hyd nes ein bod yn rhoi'r gorau i echdynnu dŵr o Lyn Ennerdale.

Ers datblygu Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft diwygiedig 2013, rydym wedi sefydlu tîm prosiect i ddatblygu'r cynllun sydd orau gennym, Cynllun Thirlmere, gyda'r nod o sicrhau cyflenwad diogel a buddion amgylcheddol cyn gynted â phosibl, yn amodol ar gymeradwyaeth cynllunio ac amgylcheddol. Mae'r tîm wedi cynnal adolygiad o amserlen y prosiect, yn arbennig y llinell amser hyd at gael penderfyniad cynllunio. O ganlyniad i gysylltiad da â chymunedau lleol a swyddogion cynllunio/priffyrdd, rydym yn ddigon hyderus y gallwn gwblhau'r broses gynllunio yn gynt nag a ragwelom yn flaenorol. O ganlyniad, y dyddiad cwblhau mwyaf tebygol ar gyfer y prosiect ac, felly, dirymu trwydded echdynnu Llyn Ennerdale, yw 31 Mawrth 2022. Mae hyn dair blynedd yn gynt na'r dyddiad a ragdybiwyd yng nghynllun drafft diwygiedig 2013, sef 2024/25. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhai risgiau'n parhau i'r prosiect (cynllunio ac adeiladu), rhai ohonynt y tu hwnt i reolaeth y cwmni, a allai effeithio ar ddyddiad cwblhau'r prosiect.

Wrth weithio ar ein cynllun, rydym hefyd wedi amlygu sawl ffordd newydd y gallem ddarparu mwy o ddŵr i gwsmeriaid sy'n byw yn ein Parth Adnoddau Integredig a ffyrdd o ostwng y galw gan gwsmeriaid ymhellach. Fodd bynnag, pe bai'r galw gan gwsmeriaid am ddŵr a'r dŵr sydd ar gael i'w gyflenwi yn y dyfodol yn dilyn yr hyn a ddisgwyliwn, ni fydd angen i ni ddefnyddio'r un o'r syniadau newydd hyn.

Yn ogystal, mae'r llywodraeth wedi gofyn i ni fwrw golwg ar y posibilrwydd o brynu a gwerthu dŵr rhwng rhanbarthau cwmniâu dŵr. Diben hyn yw y bydd dŵr yn cael ei drosglwyddo o ardaloedd lle mae'n glawio llawer, fel gogledd-orllewin Lloegr, i ardaloedd lle nad yw'n glawio cymaint a lle y bo llawer o bobl yn byw, fel de-ddwyrain Lloegr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod digon o ddŵr gan bawb yn y wlad ac nad yw dŵr yn cael ei gymryd yn ddiangen o ardaloedd sy'n sensitif yn amgylcheddol, gan achosi difrod.

Diolch i'n gweithgareddau rheoli'r galw sylfaenol, gweler y blwch testun uchod, mae gennym fwy o ddŵr nag y bo'i angen arnom yn y Parth Adnoddau Integredig a chryn botensial i ddarparu mwy o ddŵr. Rydym wedi archwilio'r posibilrwydd o fasnachu dŵr gyda chwmniâu sydd angen dŵr er mwyn cynnal cyflenwadau cwsmeriaid yn y dyfodol. Mae hyn yn ystod amodau tywydd sych yn bennaf. Fodd bynnag, ni fyddem yn gwneud hyn oni bai ei fod o fudd i'n cwsmeriaid yn y gogledd-orllewin a chwsmeriaid y cwmni dŵr y byddem yn darparu dŵr iddo. Ni chadarnhawyd bod ar gwmniâu dŵr eraill angen trosglwyddo dŵr, felly nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y cynllun sy'n well gennym. Byddwn yn parhau i weithio gyda chwmniâu eraill â budd a thrydydd partion eraill i archwilio sut y gallai'r trosglwyddiadau dŵr hyn weithio yn y dyfodol.

## ARCHWILIAD CYHOEDDUS O'R CYNLLUN

Ar 2 Ebrill 2014, cawsom wybod bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi arfer ei bŵer i alw am ymchwiliad neu wrandawriad arall yn gysylltiedig â'n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft diwygiedig 2013. Fel rhan o'r Archwiliad Cyhoeddus dilynol, cyflwynom

Ddatganiad Achos ffurfiol a Datganiadau Tir Cyffredin gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a Natural England, ynghyd â deunydd ategol arall. Ar 16 ac 17 Medi 2014, cynhaliwyd dau wrandawriad cyhoeddus dan gadeiryddiaeth Arolygydd Cynllunio.

Ar 9 Rhagfyr 2014, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei phenderfyniad, sef derbyn casgliadau ac argymhellion adroddiad yr Arolygydd<sup>2</sup>. Cawsom gyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud y newidiadau canlynol:

- Cynnwys dyddiad newydd defnyddio'r prosiect ar gyfer dewis Thirlmere a chynnwys y cyfiawnhad dros newid y dyddiad. Diweddarau'r Cynllun i adlewyrchu'r gwaith pellach a wnaed ar ddewis Thirlmere er Tachwedd 2013 fel y disgrifir ym mharagraff 2.12 yr Adroddiad<sup>2</sup>;
- Paratoi a chynnwys cynllun wrth gefn fel y cytunir arno ym mharagraff 3.2 yr Adroddiad<sup>2</sup>. Dylid seilio'r cynllun wrth gefn ar y dewisiadau ffynonellau lleol eraill yn y Cynllun drafft (yn unol â'r Datganiad Tir Cyffredin gydag Asiantaeth yr Amgylchedd). Datgan yn glir pryd y byddai United Utilities yn dechrau datblygu'r cynllun wrth gefn yn hytrach na dewis Thirlmere; a
- Chynnwys gwybodaeth am y mesurau echdynnu ychwanegol a ddisgrifiwyd ym mharagraffau 4.6 i 4.9 yr Adroddiad<sup>2</sup> (dyfrdyllau De Egremont, cynllun Summergrove a darparu dŵr trwy danceri). Dylai'r wybodaeth hon ymdrin â'r gwaith sy'n ofynnol i ddarparu'r mesurau ychwanegol hyn, faint o ddŵr y byddent yn ei ddarparu a'r llinellau amser ar gyfer cwblhau.

Cafodd y newidiadau hyn eu cynnwys yng nghynllun drafft diwygiedig 2015, sydd wedi derbyn cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ers hynny i'w gyhoeddi ar ffurf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol 2015.

## CYFLAWNI EIN DYLETSWYDD STATUDOL I DDIOGELU'R AMGYLCHEDD DŴR

Rydym yn cymryd ein dyletswydd i gyflawni ymrwymadau statudol o dan gyfraith y DU a'r Undeb Ewropeaidd o ddifrif.

- Rydym yn cydnabod bod dyletswydd statudol gennym i Lunio Cynllun Rheoli Adnodd Dŵr o dan Ddeddf Dŵr 2003;
- Mae Cyfarwyddyd Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr 2012 (Defra, 2012) yn amlinellu gofynion penodol ynghylch paratoi a chyhoeddi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Rydym wedi dangos ein bod wedi cydymffurfio â'r rhain;
- Mae Asiantaeth yr Amgylchedd, Ofwat a Defra wedi cyhoeddi Canllaw Cynllunio Adnoddau Dŵr (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2012) sy'n darparu arweiniad manwl ar sut y dylai cwmnïau dŵr baratoi eu Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Rydym wedi dilyn y canllaw'n gynhwysfawr wrth baratoi ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr;
- Mae'r Egwyddorion Arwain ar gyfer y Canllaw Cynllunio Adnoddau Dŵr yn mynegi'n glir pa mor bwysig yw Papur Gwyn y Llywodraeth ar Ddŵr a'r Bil Dŵr Drafft i gynllunio'r adnodd dŵr. Wrth ddilyn yr Egwyddorion Arwain hyn, rydym wedi cynnwys y canlynol yn ein dull o gynllunio'r adnodd dŵr:
  - Cyflwyno'r gwerth gorau i gwsmeriaid. Dylai Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr fod yn gynaliadwy yn amgylcheddol, gan gynnwys: ystyriaeth lawn o'r opsiynau rheoli galw, masnachu dŵr, atebion sy'n croesi ffiniau ac atebion

---

<sup>2</sup> Mae adroddiad yr Arolygydd Cynllunio ar gael ar <http://www.hwa.uk.com/projects/united-utilities-water-resources-management-plan-eip/>

cyflenwi gan drydydd parti i sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu dyrannu'n effeithlon; a

- Rhaid gallu addasu cynlluniau a rhaid iddynt gyfrif am ansicrwydd trwy brofi amrywiol senarios yn llawn. Dylai hyn ganolbwyntio ar y prif feysydd lle y ceir ansicrwydd, fel newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol a'r galw amgylcheddol am ddŵr.
- Fel awdurdod cymwys, rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau yn ôl y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n amddiffyn Safleoedd a Ddynodwyd yn Ewropeaidd (SoDdGAau ac ACAau), ac rydym wedi cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'n cynllun.

## **DIOGELU TIRWEDD A PHRYDFERTHWCH YR ARDALOEDD LLE'R YDYM YN BYW, YN GWEITHIO AC YN CHWARAE**

Rydym wedi ystyried yn ofalus y gwerth y mae ein cwsmeriaid yn ei roi ar eu hamgylchedd. Rydym wedi ystyried costau amgylcheddol a chymdeithasol ein hopsiynau arfaethedig ym Mharth Adnoddau Gorllewin Cumbria. Cynhaliwyd gwerthusiadau o gost a budd gan ddilyn y dulliau manwl yn Arweiniad yr Asesiad Buddion.

Mae'r ystyriaethau amgylcheddol a chymdeithasol a werthuswyd yn cynnwys amrywiaeth eang o ystyriaethau, fel:

- Effeithiau amgylcheddol y cynlluniau cyflenwi dŵr, yn ystod y gwaith adeiladu a/neu yn ystod gweithredu'r cynllun. Mae enghreifftiau o effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys effeithiau ar fflora a ffawna dyfrol, gweithgareddau hamdden anffurfiol fel cerdded, beicio neu wyllo adar, gweithgareddau hamdden yn y dŵr fel hwyllo, canŵio neu rwyfo, echdynyddion dŵr eraill, treftadaeth, archaeoleg a'r dirwedd;
- Effeithiau cymdeithasol cynlluniau cyflenwi dŵr, yn ystod y gwaith adeiladu a/neu yn ystod gweithredu'r cynllun. Mae enghreifftiau o effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys effeithiau sŵn, llwch, arogl, neu oedi i deithiau pobl o ganlyniad i waith ar y priffyrdd i osod neu drwsio piblinellau; a
- Chynnydd neu ostyngiad yn yr allyriadau carbon a allai ddeillio o echdynnu, trin a dosbarthu dŵr. Mae enghreifftiau o effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys: faint o danwydd sydd ei angen ar gerbydau a ddefnyddir wrth adeiladu, rheoli gollyngiadau, gosod mesuryddion dŵr neu ddyfeisiadau effeithlonrwydd dŵr, y defnydd o ynni ar safleoedd gwaith, allyriadau o draffig o ganlyniad i ddargyfeiriadau neu darfu, carbon ymgorfforedig yn y deunyddiau a ddefnyddir, newidiadau yn y defnydd o ddŵr (ac felly newidiadau yn y defnydd o ynni) yn y cartref.

Hefyd, rydym wedi ystyried deddfwriaeth benodol mewn perthynas ag unrhyw waith arfaethedig mewn tirweddau dynodedig yn y rhanbarth, fel y Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

## **CRYNODEB A'R CAMAU NESAF**

Mae ein strategaethau adnoddau dŵr a galw am ddŵr yn sicrhau y bydd dibynadwyedd ein cyflenwad dŵr yn parhau i gael ei gyflawni ar draws y rhanbarth, dros orwel cynllunio 2040. Hefyd, mae'n sicrhau y bydd dŵr yn cael ei echdynnu'n gynaliadwy ac mae'n ateb heriau newid yn yr hinsawdd.

Cynigiwn ddatrys y diffyg rhagweledig yn y cyflenwad yng Ngorllewin Cumbria trwy gysylltu'r ardal â'r Parth Adnoddau Integredig. Bydd hyn yn caniatáu i'r ardal amgylcheddol bwysig hon gael ei hamddiffyn yn amgylcheddol am gyfnod hirdymor,

bydd yn ei galluogi i wrthsefyll newidiadau yn yr hinsawdd a bydd yn cefnogi twf economaidd. Hyd nes cwblheir y cysylltiad hwn, byddwn yn ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol i leihau echdynnu o Lyn Ennerdale yng Ngorllewin Cumbria ac yn diweddarau ein cynllun wrth gefn o leiaf yn flynyddol.

Ni ragwelir unrhyw ddiffygion yn y cyflenwad yn unman arall yn rhanbarth y gogledd-orllewin.

Byddwn yn parhau i weithredu'r lefel ollyngiadau sydd fwyaf cynaliadwy yn economaidd, gan ddod o hyd i ollyngiadau a'u trwsio lle y bo hynny o fudd economaidd i'n cwsmeriaid.

Byddwn yn parhau i annog ein cwsmeriaid i fanteisio ar yr Opsiwn Mesuryddion am Ddim sydd ar gael iddynt a byddwn yn archwilio ffyrdd newydd a deniadol o helpu cwsmeriaid i fonitro a rheoli eu defnydd eu hunain o ddŵr. Hefyd, byddwn yn hyrwyddo'r opsiwn o gael mesurydd am ddim yn fwy penodol i'r cwsmeriaid hynny a fyddai'n elwa'n ariannol yn fwyaf.

Byddwn yn parhau i arwain ym maes effeithlonrwydd dŵr, er mwyn cyflawni gostyngiad parhaus yng nghyfanswm y galw am ddŵr.

Yn y tymor canolig, byddwn yn parhau i ystyried y potensial ar gyfer allforio dŵr i rannau eraill o'r DU, lle y bo'n economaidd gwneud hynny a lle y bo'n arwain at fuddion i'n cwsmeriaid.

Rydym wedi llunio cynllun sydd nid yn unig yn cydymffurfio â chanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd ac sy'n ymgorffori arfer gorau presennol, ond sy'n gadarn, yn hyblyg ac yn helpu'r gogledd-orllewin i fod yn barod ar gyfer y dyfodol. Hefyd, mae'n cynnwys cyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol a ddeilliodd o'r Archwiliad Cyhoeddus o'n cynllun, a gynhaliwyd yn ystod haf 2014. Rydym yn cyhoeddi'r Cynllun Adnoddau Dŵr Terfynol hwn ym mis Mawrth 2015 yn sgil cymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn yn flynyddol i ystyried newidiadau mewn galw a'r cyflenwad sydd ar gael, ac yn diwygio'r cynllun os oes angen. Er enghraifft, gallai hyn ddigwydd pe na bai modd cyflawni opsiwn Thirlmere a bydd angen i ni weithredu ein cynllun wrth gefn. Byddwn yn llunio Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr llawn newydd at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus yn 2018.